Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Ymateb ar unwaith i ddigwyddiadau tyngedfennol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc




## 1 Beth yw Grŵp Ymateb ar Unwaith?

Nod y protocol Ymateb ar Unwaith i Ddigwyddiadau Tyngedfennol sy'n ymwneud â Phlant a Phobl Ifanc yw darparu cymorth i reoli canlyniadau digwyddiadau tyngedfennol. At ddibenion y protocol, diffiniad digwyddiad tyngedfennol yw digwyddiad, neu gyfres o ddigwyddiadau sy'n bodloni'r canlynol **i gyd**:

- sydyn ac annisgwyl,
- wedi arwain at farwolaeth neu niwed difrifol (neu y gallai wedi'u hachosi),
- yn cael effaith ar unigolion a/neu'r gymuned ehangach,
- mae'r ymateb effeithiol yn gofyn am **gydlynu amlasiantaethol** i reoli bygythiad, risg a niwed.

## 2 Meini prawf ac amserlenni

Dylai Grŵp Ymateb ar Unwaith gael ei gynnull ar gyfer pob hunanladdiad (tybiedig neu'n amlwg) plant a phobl ifanc o dan 18 oed. Yn achos digwyddiadau tyngedfennol eraill, dylai'r meini prawf canlynol gael ei ystyried cyn cynnull Grŵp Ymateb ar Unwaith:

- A yw'r digwyddiad yn cwrdd â diffiniad digwyddiad tyngedfennol ?
- A oes unrhyw brosesau/polisïau eraill y dylai fod ar waith yn gyntaf? (e.e. Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl Mewn Plentyndod, ac ati).

Dylai'r Grŵp Ymateb ar Unwaith gael ei gynnull cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol, ond dim hwyrach na **dau** ddiwrnod gwaith ar ôl y digwyddiad tyngedfennol.

## 3 Grŵp Sefydlog

Mae amrywiaeth o unigolion yn ffurfio'r grŵp sefydlog ar gyfer Grŵp Ymateb ar Unwaith. Gall unrhyw aelod ohono ofyn am gynnull grŵp ymateb ar unwaith.

Mae'r rhain yn cynnwys yr Heddlu/Pennaeth Diogelu (Bwrdd Iechyd) /Bwrdd Diogelu Plant (Cadeirydd Bwrdd wedi'i gynrychioli gan Uned Busnes)/Pennaeth Gwasanaethau i Blant ar gyfer yr Awdurdod Lleol priodol/Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion ar gyfer yr Awdurdodau Lleol priodol/Rheolwr Diogelu yr Awdurdod Lleol/Cynrychiolydd y Prif Swyddog Addysg/Rheolwr Tîm Dyletswydd Argyfwng, os oes angen/Arweinydd y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion/Pennaeth y Gwasanaeth Ieuenctid/Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant/Arweinydd rhanbarthol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHs)/Seicoleg Gymunedol.

## 4 Cyfarfod y Grŵp Ymateb ar Unwaith

Bydd y grŵp yn nodi'r rhai sydd agosaf at y person ifanc, pobl ifanc eraill a allai fod mewn perygl a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad uniongyrchol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, teulu, ffrindiau, cariadon, cydweithwyr, aelodaeth clybiau, timau, staff ac ati.

Rhaid ystyried hunan-niweidio ac ymdrechion hunanladdiad tybiedig gan frawd neu chwaer fel dangosydd o deulu sy'n agored i niwed.

Dylai gweithwyr proffesiynol ystyried y canllawiau ynghylch clystyrau hunanladdiad yma: Identifying and responding to suicide clusters (dim ond ar gael yn Saesneg), i helpu nodi'r rhai sy'n agos yn ddaearyddol, yn gymdeithasol ac yn seicolegol at y person ifanc.

## 5 Cyfarfod y Grŵp Ymateb ar Unwaith

Bydd cadeirydd y grŵp ymateb ar unwaith yn amlinellu pwrpas a chynnwys y cyfarfod. Bydd yr Uwch Swyddog Ymchwilio yn darparu gwybodaeth am y digwyddiad tyngedfennol.

Bydd pob asiantaeth sy'n bresennol yn rhannu gwybodaeth am y plentyn/person ifanc, ei deulu, ei ffrindiau ac eraill (gan gynnwys, er enghraifft, tystion i'r digwyddiad) a allai fod angen cymorth ar ôl y digwyddiad tyngedfennol.

Bydd y grŵp yn nodi dyddiadau neu ddigwyddiadau sylweddol a allai gynnwys pen-blwyddi trawma a phrofedigaeth, a dylai lefel y risg gael ei nodi i bawb dan sylw.

Dylai'r cymorth sydd ei angen ar gyfer y rhai dan sylw gael ei nodi a'i gytuno, gan gynnwys cadarnhau'r unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol ac amserlenni.

## 6 Cyfarfod y grŵp ymateb ar unwaith

Mae angen trosglwyddo gofal i blant a phobl ifanc sydd eisoes yn destun Cynlluniau Gofal a Chymorth neu o fewn y System Derbyn Gofal yn ffurfiol i'w gweithiwr allweddol i sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu.

Byddwn ni'n dod i gytundeb ynghylch gwybodaeth i'w rhannu mewn sesiynau briffio gyda staff, pobl ifanc a'r gymuned ehangach.

Dylai pob asiantaeth ystyried sut y gallan nhw ddarparu help a chymorth i ddiwallu'r anghenion wedi'u nodi, naill ai eu hunain neu drwy alluogi asiantaethau eraill, cydlynwyr rhanbarthol neu sefydliadau'r trydydd sector i wneud hynny, gan sicrhau bod cynnig cyson o gymorth.

Bydd CAMHS yn gostwng y trothwy ar gyfer eu gwasanaeth yn y tymor uniongyrchol. Dylai fod proses brysbennu i sicrhau ymateb cymesur.

## 7 Cyfarfod y Grŵp Ymateb ar Unwaith

Os yw'r plentyn wedi symud i'r ysgol uwchradd, dylech chi ystyried gwahodd staff ysgol gynradd y plentyn gan y bydd ganddyn nhw wybodaeth am y gymuned a'r gallu i ddarparu cysylltiadau a all gael eu hepgor gan unrhyw sefydliad arall o bosibl.

Yn ail gyfarfod y grŵp ymateb ar unwaith, dylech chi ystyried cymorth gan arweinwyr atal hunanladdiad y cyhoedd ac arweinwyr atal hunanladdiad rhanbarthol, os oes unrhyw bryderon ynghylch haint posibl sy'n arwain at glwstwr hunanladdiad neu ar gyfer gwaith atal tarddiad yn ehangach.

Yng nghyfarfod y Grŵp Ymateb ar Unwaith terfynol, bydd strategaeth ymadael yn cael ei datblygu i fynd i'r afael â chymorth i deulu, ffrindiau a staff, lle bo hynny'n briodol, i'w rheoli gan wasanaethau prif